# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd o 13 i 20 Mehefin 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

3 Cwestiynau i Ddirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor

5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

6 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

8 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

10 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Corus

**William Graham:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y trafodaethau y mae wedi'u cynnal gyda Corus ynghylch ei angen i fewnforio dur? (WAQ18468)

**Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan):** Mae Corus wedi gwneud ei safiad ar fewnforion yn glir i mi sawl gwaith. Yn dilyn y ddamwain enbyd a cholli ffwrnais chwyth rhif 5 yng ngwaith Port Talbot o ganlyniad fis Tachwedd diwethaf, wynebai Corus broblem ddifrifol ynghylch sut i sicrhau parhad y cyflenwad i'w gwsmeriaid o ystyried bod cynhyrchu slab wedi dod i ben mor sydyn ac yn gwbl annisgwyl.

Mae cyfran o'r prinder slab yn cael ei ddarparu gan weithfeydd Corus eraill yn y DU a'r Iseldiroedd. Mae'r gweddill yn cael ei brynu ar y farchnad agored. Bydd hyn yn parhau tan fis Ionawr 2003, pryd y disgwylir y bydd y ffwrnais chwyth newydd ym Mhort Talbot yn dechrau cynhyrchu, gan ddychwelyd Port Talbot i fod yn cynhyrchu metel poeth ac yn felin stribed.

### Canolfan a Stiwdio Ffilmio

**Nick Bourne:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cynnal ynghylch y posibilrwydd o adeiladu canolfan a stiwdio ffilmio gwerth £350 miliwn yn Rhondda Cynon Taf, a chreu hyd at 6,000 o swyddi? (WAQ18470)

**Prif Weinidog Cymru:** Cyfarfûm â chynrychiolwyr o Stiwdios Rhyngwladol Dragon ar 13 Mawrth. Amlinellodd y prosiect ei gynlluniau sylweddol ar gyfer y safle; yr amserlen ar gyfer y cyfnod adeiladu; ac ystod yr allbwn economaidd disgwyliedig.

### Fformiwla Barnett

**Ron Davies:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ei gyflwyniad i adolygiad Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi o fformiwla Barnett? (WAQ18471)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae'r Pwyllgor Dethol ar y Cyfansoddiad yn Nhŷ'r Arglwyddi yn edrych ar gysylltiadau rhyng-gyfansoddiadol yn y Deyrnas Unedig yng nghyd-destun datganoli. Un elfen yn unig o'r ymchwiliad yw fformiwla Barnett ac yroedd yn destun cyflwyniad ar wahân gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

### Cyswllt gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron

**Ron Davies:** Pa gyswllt y mae'r Prif Weinidog neu unrhyw aelod o'i weinyddiaeth wedi'i gael gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron ar ôl i Heddlu De Cymru gyflwyno'r ffeil iddynt mewn perthynas â Mike German? (WAQ18472)

**Prif Weinidog Cymru:** Dim.

### Dirprwy Brif Weinidog Cymru (Cadeirio Cyfarfodydd Cabinet)

**Owen John Thomas:** Yn sgîl eich ateb i OAQ17078, a'ch llythyr eglurhaol dyddiedig 20 Mai 2002, pa mor aml wnaeth Mike German gadeirio cyfarfodydd o'r Cabinet pan oedd yn llanw swydd y Dirprwy Brif Weinidog? (WAQ18478) [W]

**Prif Weinidog Cymru:** Dim un hyd yn hyn.

## Cynrychiolaeth Gyfrannol

**Nick Bourne:** Pryd y gwnaiff Prif Weinidog Cymru ateb fy llythyr, dyddiedig 17 Ebrill 2002, sy'n gofyn am ei ymateb i ddatganiad y Dirprwy Weinidog dros Lywodraeth Leol y dylai cynrychiolaeth gyfrannol ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru fod yn amod unrhyw gytundeb partneriaeth yn y dyfodol? (WAQ18617)

**Prif Weinidog Cymru:** Atebais ar 15 Mai 2002.

## Cwestiynau i Ddirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor

### Profi y Diciâu Mewn Gwartheg

**Glyn Davies:** Sawl daliad fferm yng Nghymru sydd angen eu profi am y diciâu mewn gwartheg bob 12 mis, nad ydynt wedi cael eu profi ers dros 12 mis? (WAQ18602)

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor (Michael German):** 653.

### Ffermydd nad ydynt wedi cael eu profi am y Diciâu mewn Gwartheg

**Glyn Davies:** Sawl daliad fferm yng Nghymru sydd angen eu profi am y diciâu mewn gwartheg bob dwy flynedd, nad ydynt wedi cael eu profi ers dros ddwy flynedd? (WAQ18603)

**Michael German:** 808.

### Ffermydd nad ydynt wedi cael eu profi am y Diciâu mewn Gwartheg

**Glyn Davies:** Sawl daliad fferm yng Nghymru sydd angen eu profi am y diciâu mewn gwartheg bob pedair blynedd, nad ydynt wedi cael eu profi ers dros bedair blynedd? (WAQ18604)

**Michael German:** 3,876.

### Ffermydd nad ydynt wedi cael eu profi am y Diciâu mewn Gwartheg

**Glyn Davies:** Sawl daliad fferm yng Nghymru, y bernir bod angen eu profi am y diciâu mewn gwartheg bob 12 mis, nad oedd wedi cael eu profi ers dros 12 mis ar 1 Ionawr 2001, ac 1 Ionawr 2002? (WAQ18605)

**Michael German:** Ar 1 Ionawr 2001: 394; ar 1 Ionawr 2002: 1,055.

### Ffermydd nad ydynt wedi cael eu profi am y Diciâu mewn Gwartheg

**Glyn Davies:** Sawl daliad fferm yng Nghymru, y bernir bod angen eu profi am y diciâu mewn gwartheg bob dwy flynedd, nad oedd wedi cael eu profi ers dros ddwy flynedd ar 1 Ionawr 2001, ac 1 Ionawr 2002? (WAQ18606)

**Michael German:** Ar 1 Ionawr 2001: 501; ar 1 Ionawr 2002: 755.

## Ffermydd nad ydynt wedi cael eu profi am y Diciâu mewn Gwartheg

**Glyn Davies:** Sawl daliad fferm yng Nghymru, y bernir bod angen eu profi am y diciâu mewn gwartheg bob pedair blynedd, nad oedd wedi cael eu profi ers dros bedair blynedd ar 1 Ionawr 2001, ac 1 Ionawr 2002? (WAQ18607)

**Michael German:** Ar 1 Ionawr 2001: 2,782; ar 1 Ionawr 2002: 4,091.

## Milfeddygon a Gyflogwyd i Brofi am y Diciâu Mewn Gwartheg

**Glyn Davies:** Sawl milfeddyg a gyflogwyd i brofi am y diciâu mewn gwartheg ar 1 Ionawr 2001, 1 Ionawr 2002, ac 1 Mehefin 2002? (WAQ18608)

**Michael German:** Ar 1 Ionawr 2001: 399; ar 1 Ionawr 2002: 468, ac ar 1 Mehefin 2002: 467.

Mae'r mwyafrif o filfeddygon yn archwilwyr milfeddygol lleol sy'n cyflawni dyletswyddau profi yn rhan o'u gwaith beunyddiol. Er eu bod yn gymwys i brofi am y diciâu, nid ydynt yn treulio eu holl amser yn profi ond yn cyflawni'r gwaith hwn ochr yn ochr â'u cyfrifoldebau gwaith preifat.

## Cyllideb i Brofi am y Diciâu Mewn Gwartheg

**Glyn Davies:** Sawl gwaith y mae'r Gweinidog wedi gofyn i'r Trysorlys dalu am gynyddu'r gyllideb i brofi am y diciâu mewn gwartheg yn ystod 2001, ers 1 Ionawr 2002 ac ers 29 Mai 2002? (WAQ18609)

**Michael German:** Mae cyflwyno achos i'r Trysorlys am fwy o adnoddau ar gyfer y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol i gynyddu'r gweithgarwch ar y diciâu mewn gwartheg yn fater i Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Yr wyf i a'm swyddogion mewn cysylltiad agos â DEFRA ar y mater hwn.

## Mewnforio Bwyd ac Anifeiliaid

**Glyn Davies:** Sawl gwaith y mae'r Gweinidog wedi trafod rheoli mewnforio bwyd ac anifeiliaid gyda'r Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd/Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig rhwng 1 Ionawr 2001 ac 1 Mehefin 2002? (WAQ18610)

**Michael German:** Yr wyf i a'm swyddogion mewn cysylltiad rheolaidd â DEFRA ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ei chynrychioli ar y prif weithgorau.

## Mewnforio Bwyd ac Anifeiliaid (Aberdaugleddau a Chaergybi)

**Glyn Davies:** Sawl gwaith yr arolygwyd y rheolau mewnforio anifeiliaid a bwyd yn Aberdaugleddau a Chaergybi rhwng 1 Ionawr 2001 ac 1 Mehefin 2002? (WAQ18611)

**Michael German:** Nid aeth unrhyw gyflenwadau bwyd trwy'r swyddfa archwiliadau ffin yn Aberdaugleddau rhwng 1 Ionawr 2001 ac 1 Mehefin 2002. Caiff anifeiliaid byw sy'n croesi ar gychod fferi eu harchwilio o bryd i'w gilydd gan swyddogion iechyd anifeiliaid ym mhorthladdoedd Abergwaun a Phenfro.

Cafodd y swyddfa archwiliadau ffin ei harchwilio gan arolygwyr yr Undeb Ewropeaidd ym mis Hydref 2001. Mae gwaith yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd i gydymffurfio â'u hargymhellion ynghylch y swyddfa archwiliadau ffin.

Nid yw Caergybi yn borthladd a ddynodwyd ar gyfer mewnforion trydedd gwlad ac, o'r herwydd, ni chafodd unrhyw fwyd yn dod i mewn i'r DU ar fferi ei archwilio o fewn y cyfnod penodedig.

### Mewnforio Bwyd ac Anifeiliaid (Llythyrau gan y Gweinidog)

**Glyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r llythyrau y mae wedi'u hysgrifennu yn galw am reolau mewnforio mwy llym ar anifeiliaid a bwyd rhwng 1 Ionawr 2001 ac 1 Mehefin 2002? (WAQ18612)

**Michael German:** Na wnaf; yr wyf i a'm swyddogion yn parhau i roi pwysau ar y mater hwn mewn sawl ffordd, gan gynnwys trwy ohebiaeth, mewn cyfarfodydd ac mewn gweithgorau.

### Iawndal Amaeth-ariannol

**Glyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi llythyrau y mae wedi'u hysgrifennu naill ai at yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n gyfrifol am DEFRA, neu at Ganghellor y Trysorlys yn cyfeirio at iawndal amaeth-ariannol ers 1 Ebrill 2002? (WAQ18613)

**Michael German:** Na wnaf. Yr wyf i a'm swyddogion yn parhau i roi pwysau ar y mater hwn mewn sawl ffordd, gan gynnwys trwy ohebiaeth, mewn cyfarfodydd ac mewn gweithgorau.

### Lladd Moch Daear

**Glyn Davies:** Pryd oedd y tro diwethaf i'r Gweinidog ddweud wrth yr heddlu bod ffermwr wedi lladd moch daear, ac i ba orsaf heddlu y rhoddodd yr wybodaeth? (WAQ18615)

**Michael German:** Adroddwyd achos o ffermwr oedd dan amheuaeth o ladd moch daear gan fy rhagflaenydd yn union ar ôl cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Amaeth a Datblygu Gwledig.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

### Cyngor Celfyddydau Cymru (Clwy'r Traed a'r Genau)

**Kirsty Williams:** A dalodd Cyngor Celfyddydau Cymru iawndal i sefydliadau oherwydd y colledion a gafwyd yn ystod argyfwng clwy'r traed a'r genau? Os felly, i bwy y'i talwyd, a faint oedd y gost? (WAQ18463)

**Jenny Randerson:** Talodd Cyngor Celfyddydau Cymru £2,035 i Ŵyl Gregynog a ddioddefodd golledion am na chynhaliwyd y digwyddiad hwn y llynedd. Derbyniodd cleientiaid refeniw eraill a effeithiwyd gan glwy'r traed a'r genau eu grantiau arferol, er nad oeddent efallai wedi gallu darparu eu rhaglenni arferol.

### Sesiynau Hyfforddi Chwaraeon Cenedlaethol

**Alun Pugh:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddefnyddio gogledd Cymru fel lleoliad ar gyfer cynnal sesiynau hyfforddi chwaraeon cenedlaethol? (WAQ18464)

**Jenny Randerson:** Yn ôl Cyngor Chwaraeon Cymru, mae gogledd Cymru yn lleoliad ardderchog i gynnal sesiynau hyfforddiant chwaraeon cenedlaethol, yn enwedig yng nghyswllt chwaraeon dŵr a gweithgareddau awyr agored eraill lle mae'r adnoddau naturiol ar gael.

Er hynny, fel y dywedais o'r blaen, mae'r cyngor chwaraeon wedi dweud wrth gyrff llywodraethu chwaraeon yng Nghymru y dylent wneud ymrwymiad i gynnal sesiynau hyfforddiant chwaraeon ledled Cymru. Yn wir, dylent fabwysiadu egwyddorion sy'n ceisio lleihau anfantais logistaidd ac ystyried trefnu cystadleuaeth Cymru gyfan at ddiben dethol.

### Gwariant Cyngor Chwaraeon Cymru

**Brian Gibbons:** Pa gyfran o wariant Cyngor Chwaraeon Cymru sydd wedi bod yn yr ardaloedd Rhoi Cymunedau'n Gyntaf? (WAQ18465)

**Jenny Randerson:** Mae'r rhan fwyaf o fuddsoddiad Cyngor Chwaraeon Cymru mewn prosiectau chwaraeon cymunedol lleol yn cael ei ariannu trwy Sportlot, y gronfa loteri ar gyfer chwaraeon yng Nghymru. O'r £46 miliwn o grantiau a ddyfarnir gan Sportlot i brosiectau cymunedol trwy Gymru, mae £10.6 miliwn wedi'i fuddsoddi mewn cynlluniau yn ardaloedd etholaethol Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. Mae hyn yn 23 y cant o gyfanswm y buddsoddiad a wnaed gan y cyngor chwaraeon hyd yma, ar ffurf grantiau cymunedol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i ganolbwyntio ei buddsoddiad mewn chwaraeon, trwy raglenni Cyngor Chwaraeon Cymru, lle mae ei fwyaf angen. Trwy ei gynllun cynhwysiant cymdeithasol mewn chwaraeon, mae'r cyngor chwaraeon yn ceisio cael gwared â'r rhwystrau sy'n atal rhai pobl a chymunedau rhag cael gafael ar y gwasanaethau ariannol ac eraill sydd ar gael iddynt.

### Dyrannu Cyllid y Loteri

**Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch dyrannu cyllid y loteri i faterion sydd o fewn ei phortffolio? (WAQ18466)

**Jenny Randerson:** Nid yw fy nghyfrifoldebau o ran polisi loteri yn ymestyn i wneud penderfyniadau ar ddyrannu cyllid i brosiectau arbennig. Cyrff dosbarthu'r loteri sy'n gwneud hynny. Mae'r loteri wedi cael effaith aruthrol yng Nghymru, gyda thros £620 miliwn wedi ei ddyrannu i Gymru ers ei chyflwyno.

### Rasio Colomennod

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch cydnabod rasio colomennod fel un o'r campau? (WAQ18467)

**Jenny Randerson:** Trwy weithio gyda'i gilydd, mae cynghorau chwaraeon y pedair gwlad wedi datblygu system o roi cydnabyddiaeth ffurfiol i chwaraeon i benderfynu pa weithgareddau sy'n gymwys i dderbyn cefnogaeth er mwyn sicrhau bod cyllid cyhoeddus yn cael ei ddosbarthu'n effeithiol. Penderfynwyd na fydd gweithgaredd chwaraeon yn cael ei gydnabod fel un cymwys i dderbyn cymorth grant oni bai fod y pedwar cyngor yn cytuno'n unfrydol. Ymhlith y meini prawf a ddefnyddir gan y cynghorau i asesu addasrwydd ar gyfer cydnabyddiaeth ar hyn o bryd yw bod yn rhaid i'r gweithgaredd ddatblygu lefel uchel o sgil ac ymdrech gorfforol. Nid yw'r cyngor chwaraeon yn ystyried bod rasio colomennod yn cwrdd yn llawn â'r maen prawf hwnnw.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

### Stiwdio Ffilmio (Gwrthwynebu Rhoi Caniatâd Cynllunio)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyfiawnhau penderfyniad Llywodraeth Cynulliad Cymru i wrthwynebu rhoi caniatâd cynllunio i'r stiwdio ffilmio gwerth £350 miliwn yn Llanilid yn Rhondda Cynon Taf, a allai fod wedi creu hyd at 6,000 o swyddi? (WAQ18458)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex):** Yr oedd y llythyr cyfarwyddyd a gyhoeddwyd ar 15 Mai gan Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru yn nodi'n glir pam y dylai'r awdurdodau cynllunio lleol wrthod y cais a gyflwynwyd am stiwdio ffilmio a datblygiad cysylltiedig yn Llanilid. Mae'r Gyfarwyddiaeth Drafnidiaeth yn barod i adolygu ei gwerthusiad a'r cyfarwyddyd yn dilyn hynny yn amodol ar fod y datblygwr yn goresgyn y gwrthwynebiadau priffyrdd a nodir yn y cyfarwyddyd. Mae copi o'r llythyr cyfarwyddyd isod.

‘Annwyl Syr,

**GORCHYMYN CYNLLUNIO GWLAD A THREF (GWEITHDREFN DDATBLYGU GYFFREDINOL) 1995, STIWDIO FFILMIO A DATBLYGIAD CYSYLLTIEDIG ARFAETHEDIG AR HEN SAFLE GLO BRIG LLANILID**

Mewn ymateb i ymgynghoriad eich awdurdod ar y datblygiad arfaethedig hwn, amgaeaf Ffurflen TR110, sy’n cyfarwyddo’r awdurdod i wrthod y cais datblygu, fel a gyflwynwyd, am y rhesymau a nodir ar y ffurflen.

Ein polisi fel a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru, yw “na fyddai mynediad uniongyrchol i draffordd neu i lôn yn ymuno â thraffordd yn dderbyniol heblaw i safle gwasanaethau traffordd….”. Mae hyn yn unol â pholisi cenedlaethol y DU. I ni ystyried gwneud eithriad i’r polisi sefydlog hwn, byddai angen i’r ymgeisydd ddangos bod y datblygiad yn un mor bwysig i’r economi, ac mor ddibynnol ar gael mynediad i’r draffordd iddo’i hun fel bod cyfiawnhad i ddarparu cyffordd newydd i’r datblygiad yn unig, ar ffurf *cul de sac*. Pe bai angen y gyffordd newydd fel rhan o gynllun i integreiddio’r datblygiad ac unrhyw gynigion eraill yn yr ardal o fewn y rhwydwaith trafnidiaeth ehangach, gan gynnwys trafnidiaeth gyhoeddus, ni fyddai’n groes i bolisi sefydlog.

Fel arall, ystyrir hefyd o’n dadansoddiad cychwynnol y gellid addasu Cyffordd 35, gyda gwelliannau addas a fyddai angen cytuno arnynt yn fanwl, i dderbyn traffig a thwf y datblygiad i’r dyfodol.

Mae’n rhaid i ni hefyd dynnu sylw at y ffaith y byddai’r rhagolygon traffig a gyflwynwyd yn cael effaith annerbyniol ar lif y traffig ar yr M4 a’i chyffyrdd. Er hynny, yn ein barn ni, gellid gwella hyn i lefel dderbyniol drwy gydymffurfio gyda Chanllawiau Parcio De Cymru i staff sy’n teithio i’w gwaith mewn ceir a thrwy fabwysiadu cynlluniau teithio priodol.

Dylid pwysleisio bod ein penderfyniad yn berthnasol i’r datblygiad arfaethedig fel a ddisgrifir yn y cais a’r datganiad amgylcheddol sy’n ei gefnogi, a hoffem wneud yn glir ein bod wastad yn barod i adolygu ein gwerthusiad, a’r cyfarwyddyd o ganlyniad, os gwneir newidiadau pellach i’r cais mewn ymateb i’n sylwadau. Ni ddylid ystyried bod hyn yn rhagfarnu unrhyw ymateb gennym i gais diwygiedig a fyddai’n delio â’r pryderon a nodir uchod.

Yn gywir

**ROBERT CONE**
**PENNAETH YR IS-ADRAN RHEOLI’R RHWYDWAITH**
**Y GYFARWYDDIAETH DRAFNIDIAETH**

## Canolfan a Stiwdio Ffilmio

**Nick Bourne:** Pa drafodaethau y mae’r Gweinidog wedi’u cynnal gyda’r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd ynghylch penderfyniad Llywodraeth y Cynulliad i wrthwynebu cynlluniau gwerth £350 miliwn i adeiladu canolfan a stiwdio ffilmio yn Rhondda Cynon Taf a chreu 6,000 o swyddi yno? (WAQ18459)

**Sue Essex:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau gyda’m cyd-Aelod, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd, ynghylch penderfyniad y Cynulliad ar y cais cynllunio am stiwdio ffilmio a datblygiad cysylltiedig yn Llanilid.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

### Alldro'r Gyllideb ar gyfer Prif Grwpiau Gwariant

**Ron Davies:** A wnaiff y Gweinidog gynhyrchu tabl yn dangos alldro'r gyllideb ar gyfer pob prif grwp gwariant am y flwyddyn ariannol 2001-02? (WAQ18499)

**Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart):** Mae'r wybodaeth wedi'i gosod allan yn y tabl canlynol:

**£ miliynau**

| **Prif Grwp Gwariant** | **Darpariaeth** | **Gwariant** |
|---|---|---|
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 3,311.4 | 3,307.2 |
| Llywodraeth Leol | 2,883.1 | 2,883.1 |
| Addysg a Dysgu Gydol Oes | 951.6 | 958.1 |
| Tai a Gwasanaethau Llywodraeth Leol Eraill | 553.3 | 531.6 |
| Datblygu Economaidd | 453.6 | 444.4 |
| Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth | 315.1 | 310.1 |
| Amaeth a Datblygu Gwledig | 252.1 | 214.2 |
| Gweinyddiaeth Ganolog | 130.6 | 127.4 |
| Diwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg | 66.1 | 66.4 |
| Swyddfa'r Llywydd | 23.4 | 21.0 |
| Coedwigaeth | 14.3 | 14.3 |
| Estyn | 10.1 | 8.4 |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | 2.2 | 2.1 |
| Gwasanaethau Eraill y Cynulliad | 1.6 | 1.5 |
| Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru | 0.9 | 0.8 |
| **Cyfanswm y Cynulliad** | **8,969.3 (1)** | **8,890.6** |

1. Nid yw'r ffigurau yn gyfanswm am iddynt gael eu talgrynnu.

### Sefydlu Cynghorau Cymuned

**Brian Gibbons:** Beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer sefydlu cynghorau cymuned yng Nghymru? (WAQ18622)

**Edwina Hart:** Mae'r gweithdrefnau y byddai'n rhaid i gymunedau eu dilyn pan yn sefydlu cynghorau tref a chymuned newydd wedi eu nodi yn adrannau 28 a 29B o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

### Cyllidebau Awdurdodau Lleol

**Pauline Jarman:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr effaith y mae gweithredu mentrau'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei gael ar gyllidebau awdurdodau lleol? (WAQ18623) [R]

**Edwina Hart:** Mae awdurdodau lleol yn cael y mwyafrif o'u hadnoddau gan y Cynulliad Cenedlaethol ar ffurf grantiau cynnal refeniw. O fewn y grant cynnal refeniw, sydd heb eu neilltuo, mae darpariaeth i weithredu beichiau newydd fel cynlluniau neu newidiadau deddfwriaeth gan y Cynulliad Cenedlaethol. Cytunwyd ar y drefn i sicrhau y gwneir y ddarpariaeth angenrheidiol gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae swyddogion polisi perthnasol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymgynghori gyda'r gymdeithas ynghylch costau disgwyliedig y beichiau newydd a roddir ar awdurdodau, ac yna'n adlewyrchu'r angen am adnoddau ychwanegol yn rownd cynllunio cyllideb flynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Hefyd, mae'r gymdeithas yn paratoi datganiad blynyddol ar bwysau gwario sy'n

cynnwys costau disgwyliedig unrhyw gynlluniau newydd yn y flwyddyn i ddod. Caiff y datganiad am 2003-04 ei drafod yng nghyfarfod y Fforwm Ymgynghori ar Gyllid ar 27 Mehefin.

### Datganoli Grym o'r Awdurdodau Unedol

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bolisi Llywodraeth Cymru ar ddatganoli grym o'r awdurdodau unedol i gynghorau tref a chynghorau cymuned? (WAQ18625)

**Edwina Hart:** Yn ddiweddar comisiynais ymchwil gan Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear Prifysgol Cymru Aberystwyth i rôl, swyddogaeth a photensial cynghorau tref a chymuned i'r dyfodol. Disgwylir i'r ymchwilwyr adrodd yn Ebrill 2003. Gwneir penderfyniadau ar bolisi ynghylch datganoli swyddogaethau o awdurdodau unedol i gynghorau tref a chymuned yng ngoleuni tystiolaeth, casgliadau ac argymhellion yr ymchwil honno.

### Yr Hawl i Bleidleisio

**Rosemary Butler:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau nad oes unrhyw aelod o'n cymuned yn cael eu hamddifadu o'u hawl i bleidleisio mewn etholiadau? (WAQ18626)

**Edwina Hart:** Yr wyf i a'm swyddogion yn gweithio'n agos gyda'r Comisiwn Etholiadol, Llywodraeth y DU a swyddogion canlyniadau Cymreig i sicrhau bod etholiadau'r Cynulliad yn 2003 mor hygyrch â phosibl. Yn enwedig, yr wyf wedi pwyso ar swyddogion canlyniadau i sicrhau bod eu gorsafoedd pleidleisio yn gwbl hygyrch i bobl anabl ac ysgrifennais atynt yn gofyn am ddiweddariad ar y sefyllfa yn eu hetholaethau. Yn ddiweddarach eleni, byddaf yn cyflwyno Gorchymyn drafft i ddarparu lefel briodol o gyllid i gwrdd â'r amcanion hyn.

Bydd y Comisiwn Etholiadol yn cynnal ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd yn annog pobl i gofrestru ar gyfer pleidleisio ac i wneud cais am bleidleisiau post. Byddwn yn darparu cefnogaeth a chymorth ar hyn.

### Cyllid Llywodraeth Leol

**Rhodri Glyn Thomas:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda llywodraeth leol ynghylch y cyllid y mae yn ei dderbyn er mwyn gweinyddu mentrau sy'n deillio o bolisïau Llywodraeth y Cynulliad? (WAQ18627)

**Edwina Hart:** Mae cyfarfodydd rheolaidd y Fforwm Ymgynghori ar Gyllid yn rhoi cyfle i lywodraeth leol drafod gyda'r Gweinidog faint o gyllid a roddir i weinyddu cynlluniau sy'n deillio o bolisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yn y cyfarfod nesaf o'r Fforwm Ymgynghori ar Gyllid ar 27 Mehefin, bydd y Gweinidog yn derbyn adroddiad o asesiad awdurdodau lleol o'u hanghenion cyllido am 2003-04. Wrth baratoi'r adroddiad hwn, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cynnal trafodaethau gyda swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gostau tebygol gweinyddu cynlluniau sy'n deillio o bolisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

### Grantiau Cynghorau Cymuned i Heddlu De Cymru

**Janet Davies:** A yw'r Gweinidog wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Chymdeithas y Cynghorau Cymuned yn ddiweddar ynghylch y grantiau a roddir gan gynghorau cymuned i Heddlu De Cymru ar gyfer plismona lleol? (WAQ18628)

**Edwina Hart:** Nid wyf wedi cyfarfod gyda chynrychiolwyr o Gymdeithas y Cynghorau Cymuned yn ddiweddar. Yr wyf yn cyfarfod â chynrychiolwyr o awdurdodau'r heddlu yng Nghymru a phrif gwnstabliaid y lluoedd Cymreig yn rheolaidd. Nid yw Cymdeithas y Cynghorau Cymuned na Heddlu De Cymru wedi codi'r cwestiwn o grantiau cynghorau cymuned i gyllido plismona lleol yn ne Cymru gyda mi.

### Cynllun Cymorth Prynu Cartrefi

**Owen John Thomas:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i ymestyn y cynllun cymorth prynu cartrefi, a'i gwneud yn haws i bobl fanteisio arno? (WAQ18630)

**Edwina Hart:** Mae'r defnydd a wneir o'r cynllun cymorth prynu cartrefi yn fater i'w benderfynu gan awdurdodau lleol yn ôl yr anghenion a'r blaenoriaethau ar gyfer tai yn eu priod ardaloedd.

Yr wyf eisoes wedi cyhoeddi fy mod yn bwriadu adolygu gweithrediad y cynllun yn ystod yr haf a byddaf yn adrodd arno i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn yr hydref.

### Penderfyniadau Masnachol Gyfrinachol

**Alison Halford:** Yn dilyn ei hateb i WAQ18236, a yw'r Gweinidog yn bwriadu sicrhau y cedwir cofnod o'r holl benderfyniadau sy'n cael eu trin fel rhai 'masnachol gyfrinachol'? (WAQ18634)

**Edwina Hart:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gynlluniau i gadw cofrestr ganolog o'r holl benderfyniadau sy'n fasnachol gyfrinachol. Fodd bynnag, cedwir pob gwybodaeth masnachol gyfrinachol, ynghyd â'r nodiadau achos perthnasol, ar ffeiliau cofrestredig am gyfnod o saith mlynedd.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Cas-bach (Darparu Meddygfa)

**Michael German:** A fyddai'r Gweinidog cystal ag esbonio pa gamau y mae hi'n eu cymryd i wneud yn siwr bod Awdurdod Iechyd Bro Taf yn darparu meddygfa leol addas yng Nghas-bach, ger Caerdydd, gan gofio'r gwrthwynebiad cyhoeddus cryf i'r ffaith bod y feddygfa leol yng Nghas-bach wedi'i chau? (WAQ18460)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Mae Awdurdod Iechyd Bro Taf yn gyfrifol am sicrhau bod gan gleifion yn ei ardal fynediad at wasanaethau meddygol cyffredinol.

Mae practis Dr. R.P.Edwards a'i bartneriaid yn gweithredu o'r brif feddygfa yn Llaneirwg, ac mae ganddi dair meddygfa gangen, un ohonynt yng Nghas-bach/Maerun. Yn gynharach eleni, gofynnodd y practis i'r awdurdod iechyd am ganiatâd i gau eu meddygfa gangen yng Nghas-bach. Y prif reswm dros hyn oedd yr ystod gyfyng o wasanaethau yr oedd modd eu darparu o'r adeiladau portakabin, y nifer lai o gleifion oedd yn mynychu ac anawsterau'r practis gyda chynnal y gwasanaeth.

Mae Cyngor Iechyd Cymuned Gwent wedi achub y blaen drwy ofyn i bobl leol am sylwadau ac mae cyfarfod cyhoeddus wedi'i gynnal. Mae'r awdurdod iechyd yn disgwyl derbyn adroddiad ac argymhellion y cyngor iechyd cymuned yn dilyn yr ymarfer ymgynghorol yr wythnos nesaf.

Bydd Awdurdod Iechyd Bro Taf yn ystyried yr holl ffeithiau a safbwyntiau cyn gwneud penderfyniad ar gais y practis i gau'r feddygfa gangen. Mae'n debyg y caiff y penderfyniad ei gymryd yn ystod y mis nesaf. Beth bynnag fo'r canlyniadau, bydd mynediad cleifion at wasanaethau meddygol cyffredinol priodol yn parhau.

### Cas-bach (Oriau Gofynnol yn ôl y Contract)

**Michael German:** A fyddai'r Gweinidog cystal â dweud wrthyf pa gamau y mae hi wedi'u cymryd i sicrhau bod y feddygfa yng Nghas-bach ar agor yn ystod yr oriau y mae'n ofynnol iddi fod ar agor yn ôl y contract? (WAQ18461)

**Jane Hutt:** Mater i Awdurdod Iechyd Bro Taf yw hwn, ar y cyd â'r meddygon yn y feddygfa gangen.

Yr oriau agor contract yn y feddygfa gangen yng Nghas-bach yw rhwng 8.30 a.m. a 10.00 a.m. ar ddiwrnodau gwaith. Yr oedd amser yn ystod Ebrill a Mai pan newidiodd y practis ei oriau agor i ddiwedd y bore/amser cinio. Gwnaed hyn heb gysylltu gydag Awdurdod Iechyd Bro Taf. Unwaith y daeth yr awdurdod iechyd i wybod am y newid hwn, cynhaliwyd trafodaethau gyda'r practis a gwnaed trefniadau i ail gyflwyno'r oriau agor sefydlog. Mae'r awdurdod iechyd mewn cysylltiad rheolaidd â'r practis a deallaf fod yr oriau sefydlog wedi eu cynnal ers hynny.

## Swyddfa Cofnodion Troseddol

**Kirsty Williams:** A gynhaliwyd asesiad o'r amser a gymerir i gael gafael ar archwiliadau a gynhelir gan yr heddlu ar sail gwybodaeth gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol? (WAQ18462)

**Jane Hutt:** Gwn am y problemau a brofir o ganlyniad i'r oedi gyda chael gafael ar archwiliadau gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol. Mae'r Swyddfa Gartref wedi rhoi gwybod i ni bod y swyddfa ar hyn o bryd yn cyflwyno tua 25 y cant o archwiliadau o fewn tair wythnos.

Mae'r swyddfa wedi cyhoeddi cyfres o safonau gwasanaeth cwsmer ar gyfer ei hamseroedd ymateb targed ar geisiadau archwilio. Y rhain yw:

- 90 y cant o archwiliadau manwl i gael eu cyflwyno o fewn tair wythnos;
- 95 y cant o archwiliadau safonol i gael eu cyflwyno o fewn un wythnos; a
- 95 y cant o archwiliadau sylfaenol i gael eu cyflwyno o fewn un wythnos.

Mae'r swyddfa yn derbyn nad yw'n cwrdd â'r safonau gwasanaeth hyn ar hyn o bryd ac mae wedi cyflwyno cynllun gwella perfformiad a sawl mesur tymor byr wrth gefn i ddelio â'r mater. Mae'n ffyddiog y bydd yn gwella ei pherfformiad dros yr wythnosau nesaf ac yn dechrau cwrdd â'i safonau gwasanaeth cyhoeddedig.

Byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa ac, lle bo hynny'n briodol, yn codi unrhyw bryderon gyda'r Swyddfa Gartref.

## Peiriannau MRI a CT

**David Davies:** Faint o beiriannau MRI a CT sy'n gweithio yng Nghymru? (WAQ18469)

**Jane Hutt:** Mae ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru yn berchen ar ac yn gweithredu 20 o beiriannau tomograffeg gyfrifiadurol a delweddu cyseiniant magnetig. Hefyd, mae tri pheiriant MRI arall yn cael eu darparu i, ac yn cael eu comisiynu gan ymddiriedolaethau dros yr wythnosau nesaf. Mae nifer fechan o beiriannau CT a MRI hefyd yn cael eu defnyddio mewn ysbytai preifat o fewn y dywysogaeth.

## Ciropodyddion a Phodiatryddion y GIG

**David Lloyd:** Faint o giropodyddion a phodiatryddion a gyflogwyd gan y gwasanaeth iechyd gwladol yn ystod pob un o'r pum mlynedd diwethaf? (WAQ18593) [R]

**Jane Hutt:** Mae nifer y staff ciropodi oedd yn uniongyrchol gyflogedig gan y GIG ar 30 Medi dros y pum mlynedd diwethaf wedi ei nodi yn y tabl isod.

| | **1997** | | **1998** | | **1999** | | **2000** | | **2001** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Rhif** | **Cyfwerth amser llawn** | **Rhif** | **Cyfwerth amser llawn** | **Rhif** | **Cyfwerth amser llawn** | **Rhif** | **Cyfwerth amser llawn** | **Rhif** | **Cyfwerth amser llawn** |
| **Staff gwyddonol, therapiwtig a thechnegol** | | | | | | | | | | |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ciropodi:** | | | | | | | | | | |
| Rheolwr | 8 | 8.0 | 8 | 8.0 | 9 | 9.0 | 9 | 9.0 | 8 | 8.0 |
| Therapydd | 238 | 191.5 | 248 | 191.4 | 244 | 193.2 | 253 | 193.2 | 255 | 197.5 |
| Technegydd | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Tiwtor | - | - | - | - | - | - | - | - | 1 | 1.0 |
| Myfyriwr/hyfforddai | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Helpwr/Cynorthwy-ydd | 31 | 24.8 | 33 | 26.5 | 30 | 24.1 | 30 | 22.9 | 37 | 28.3 |
| **Is-gyfanswm** | **277** | **224.3** | **289** | **225.9** | **283** | **226.3** | **292** | **225.1** | **301** | **234.8** |
| | | | | | | | | | | |
| **Cynorthwywyr Gofal Iechyd** | | | | | | | | | | |
| Ciropodi | 1 | 0.0 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| | | | | | | | | | | |
| **Staff cymorth arall** | | | | | | | | | | |
| Ciropodi | 8 | 6.8 | 6 | 5.3 | 6 | 5.3 | - | - | - | - |

### Cymdeithas y Ciropodyddion a'r Podiatryddion

**David Lloyd:** A yw'r Gweinidog yn bwriadu cael cyfarfodydd gyda chynrychiolwyr Cymdeithas y Ciropodyddion a'r Podiatryddion? (WAQ18595) [R]

**Jane Hutt:** Pe dymunai'r gymdeithas, ac yn amodol ar yr ymrwymiadau yn fy nyddiadur, byddwn yn ystyried unrhyw gais i gynnal cyfarfod.

### Gofalwyr Ifanc yn Nghymru

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu gwybodaeth ar nifer y gofalwyr ifanc sydd yng Nghymru? (WAQ18596) [R]

**Jane Hutt:** Ni chesglir gwybodaeth o'r fath yn ganolog. Yn ôl y ddogfen ymchwil gan Brifysgol Bangor, 'Astudiaeth o Gynhalwyr Ifanc yng Nghymru' a gomisiynwyd yn 2001, nid oedd unrhyw wybodaeth ddemograffig gywir ar y nifer o ofalwyr ifanc yng Nghymru. Mae anawsterau gydag amcangyfrif y niferoedd yn codi o'r amrywiol ddiffiniadau o ofalwyr ifanc a ddefnyddir ledled Cymru, ynghyd â natur gudd y boblogaeth – nid yw plant a phobl ifanc wastad yn dweud eu bod yn ofalwyr ifanc. Mae copïau o'n hymchwil yn 2001 ar gael ar wefan gofalwyr y Cynulliad.

Tybiodd ymchwil a gomisiynwyd gan Gymdeithas Genedlaethol y Gofalwyr yn 1998 ('Young Carers in the United Kingdom' – Prifysgol Loughborough) bod rhwng 20,000 a 50,000 o ofalwyr ifanc yn y DU. Awgryma hyn y gallai fod tua 1,200 i 3,000 o ofalwyr ifanc yng Nghymru.

Fel rhan o'r rhaglen waith ar gyfer ein cynllun gweithredu am eleni, 'Gofalu am Ofalwyr: Strategaeth i Ofalwyr yng Nghymru', bwriadwn gyflwyno diffiniad safonol o 'ofalwr ifanc' y gallai pob asiantaeth ei ddefnyddio.

### Gofal Iechyd i Blant

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu gwybodaeth ynglŷn ag adroddiad arfaethedig Comisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ar ofal iechyd arbenigol i blant Cymru, ar sut y penderfynir ar ffiniau sy'n effeithio ar gyfrifiadau 'màs critigol'? (WAQ18597) [R]

**Jane Hutt:** Seiliwyd y cyfrifiadau màs critigol yn adroddiadau'r Comisiwn ar gyngor oddi wrth y Colegau Meddygol Brenhinol.

### Cymdeithas y Ciropodyddion a'r Podiatryddion (Ceisiadau am Gyfarfodydd)

**David Lloyd:** A yw'r Gweinidog wedi derbyn ceisiadau oddi wrth Gymdeithas y Ciropodyddion a'r Podiatryddion i gyfarfod â hi? (WAQ18598) [R]

**Jane Hutt:** Yr wyf wedi derbyn cais i gwrdd â chynrychiolwyr o Gymdeithas y Ciropodyddion a'r Podiatryddion drwy eich swyddfa chi. Mae ysgrifennydd fy nyddiadur wedi ysgrifennu at y gymdeithas yn gofyn iddynt gysylltu â hi i wneud y trefniadau angenrheidiol. Ar hyn o bryd yr ydym yn dal i ddisgwyl am ymateb gan y gymdeithas.

### Ymgynghoriadau â Chiropodyddion a Phodiatryddion

**David Lloyd:** Pa ganran o'r boblogaeth sydd wedi ymgynghori â chiropodydd neu bodiatrydd yn ystod pob un o'r pum mlynedd diwethaf; a pha ganran o'r boblogaeth a gafodd driniaeth gan geiropodydd neu bodiatrydd? (WAQ18599) [R]

**Jane Hutt:** Nid yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn cadw'r ystadegau hyn yn ganolog.

### Clefyd *Ménière*

**Alison Halford:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion am y gwasanaethau arbenigol sydd ar gael drwy'r gwasanaeth iechyd gwladol i bobl sy'n dioddef o glefyd *Ménière* yng Nghymru? (WAQ19631)

**Jane Hutt:** Ni chedwir manylion am y gwasanaethau sydd ar gael i bob cyflwr meddygol yn ganolog. Ar hyn o bryd, cyfrifoldeb yr awdurdodau iechyd yng Nghymru yw penderfynu angen a chomisiynu gwasanaethau ar gyfer eu poblogaethau.

### Nyrsys sy'n Arbenigo mewn Cydbwysedd

**Alison Halford:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i hyfforddi nyrsys sy'n arbenigo mewn cydbwysedd i roi gofal arbenigol i'r rhai sy'n dioddef o glefyd *Ménière*? (WAQ18632)

**Jane Hutt:** Ar hyn o bryd, cyfrifoldeb yr awdurdodau iechyd yw comisiynu gwasanaethau priodol ar gyfer eu poblogaethau. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb i sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn rhai o safon a'u bod wedi eu staffio'n briodol.